OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 241 (Cy. 33)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Chwefror 2014* |
| *Yn dod i rym* | *17 Chwefror 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd i Langurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn i rym ar 17 Chwefror 2014. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2014.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd ym Mhontnewydd ar Wy yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 153 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Cyffredin Lane tua'r de at bwynt 250 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Heol Fferm Woodcastle.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r Gefnffordd.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A470) (Pontnewydd ar Wy, Powys) (Ffyrdd Cyfyngedig) 1991**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2(1), wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 ar waith.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y cyfeirir ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Chwefror 2014.

***R MORGAN***
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1991/2847